



## Traeth Pentywyn

*“Mae Traeth Pentywyn yn syfrdanol gydag 8 milltir o dywod euraidd. Dyma gartref record cyflymder ar y tir, lle arbennig sydd wedi gweld hanes moduro sawl gwaith wrth i recordiau cyflymder ar y tir gael eu cyflawni a'u torri.”*

ALISON ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

### Dechrau/Diwedd:

Maes parcio talu ac arddangos yng nghanol pentref Pentywyn.

### Pellter:

1 km / 0.75 milltir.

Taith estynedig: O Gillman Point yn ôl i bentref Pentywyn ar y ffordd B4314 yn 2km / 1 milltir

### Gwybodaeth:

Cychwynnch ar eich taith wrth y panel Realiti Estynedig o flaen caffi 'Tea by the Sea'. Yma, defnyddiwch eich dyfais symudol (ffôn clyfar neu dabled) gydag ap Llwybr Arfordir Cymru i yrru car rasio Blue Bird ac ymuno ag Amy Johnson ar ei heddiad i America cyn mynd i'r gorllewin ar hyd lan y môr. Dilynwch Llwybr Arfordir Cymru, gan fynd i fyny'r grisiau serth i ben y clogwyn ym Mhwynt Gillman. Mae'r golygfeydd ar draws Morfa Bychan werth yr ymdrech! Gallwch ddychwelyd yr un ffordd neu gall y rhai mwy egniol fynd ymlaen i'r traeth bach ym Morfa Bychan a throi i'r dde ar drac wedi'i arwyddo

sy'n mynd i fyny rhiw. Ble mae fforch yn y trac, trowch i'r dde ac ewch tuag at y ffordd B4314 nôl i bentref Pentywyn.

### Ar y ffordd...

Edrychwch am y nythfa fwyaf o adar môr yn Sir Gaerfyrddin a thynnwch luniau o olygfeydd agored godidog y traeth hwyaf ar Llwybr Arfordir Cymru, Traeth Pentywyn.

### Cynlluniwch eich ymweliad:

**TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS:** [traveline.cymru](http://traveline.cymru)

**GWEFAN DWIRISTIAETH:** [discovercarmarthenshire.com/places/pendine/](http://discovercarmarthenshire.com/places/pendine/)

### Cyn gadael:

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru er mwyn profi'r ardal mewn Realiti Estynedig. Nid yw'r daith hon yn addas ar gyfer pramiau na bygis.

